# Hyfforddiant Urddas Mislif a'r Glasoed

GAN BROOK

Ar gyfer athrawon, staff cynorthwyol ac asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Ngheredigion.

Dewiswch o un o'r sesiynau canlynol:

03/02/26, 9.30yb - 12.30yp
~ Ar-lein, dros MS teams

25/02/26, 9.30yb - 12.30yp
~ Ystafell Ystwyth, Penmorfa, Aberaeron

Diwedd ar Dlodi Mislif

I archebu lle neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â urddasmislif@ceredigion.gov.uk

Mae digon o bethau i boeni am mewn bywyd, ni ddylai'r mislif fod yn un ohonyn nhw.

## Nod yr Hyfforddiant:

I rannu gwybodaeth a dealltwriaeth gyda gweithwyr proffesiynol am y broses o'r mislif, darparu dealltwriaeth o'r hyn y mae urddas mislif yn ei olygu, a rhoi sgiliau ymarferol i weithwyr proffesiynol addysgu eu disgyblion am y mislif.

## Canlyniadau Dysgu:

- Cydnabod y gofynion statudol ar gyfer ACRh ac addysg mislif.
- Deall 'Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Urddas Mislif' Llywodraeth Cymru.
- Deall y broses fislif.
- Mynd i'r afael â mythau a thabŵ sy'n ymwneud â'r mislif.
- Deall pa gynhyrchion sydd ar gael, gan gynnwys cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio.
- Deall pa rwystrau all wynebu pobl sy'n cael mislif a sut i fynd i'r afael â'r rhain.
- Nodi newidiadau ymarferol i sicrhau bod ysgolion a lleoliadau addysg yn annog diwylliant sy'n rhoi urddas mislif i ddisgyblion.

Mae'r hyfforddiant hwn, sydd wedi'i ariannu gan Grant Urddas Mislif Llywodraeth Cymru, yn rhad ac am ddim.
Nifer cyfyngedig o lefydd ar gael*

www.brook.org.uk